# STEPHEN, THOMAS (1856 - 1906), cerddor

**Enw:** Thomas Stephen
**Dyddiad geni:** 1856
**Dyddiad marw:** 1906
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cerddor
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth; Perfformio
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd 24 Chwefror 1856 ym Mrynaman, Sir Gaerfyrddin. Symudodd y teulu i fyw i Aberdâr pan oedd yn blentyn, a chafodd ei addysg yn ysgol y Comin, Aberdâr. Amlygodd dalent gerddorol yn ieuanc, ac ymunodd â chymdeithas gorawl Aberdâr. Rhoddodd ' Caradog ' (G. R. Jones), arweiniad y côr i fyny, a phenodwyd yn ei le Rhys Evans, a Tom Stephen yn arweinydd cynorthwyol. Yn 1877 penodwyd ef yn arweinydd y canu yng nghapel Bethesda, Ton, Rhondda. Yn 1878 sefydlwyd côr meibion Rhondda ('Rhondda Glee Society') ac apwyntiwyd ef yn arweinydd. Bu'n arweinydd hefyd i'r ' Aberdare Glee Society,' ' Aberdare String Band,' ' Mid Rhondda Choral Union,' a'r ' Cardiff Exhibition Choir.' Cynorthwyodd Dr. Joseph Parry i berfformio ei opera ' Sylvia.' Enillodd y côr meibion o dan ei arweiniad y wobr yn eisteddfod Ffair y Byd yn Chicago, U.D.A., yn 1893, ac yn yr eisteddfod genedlaethol ac eisteddfodau eraill. Perfformiodd amryw gyfanweithiau. Bu farw 24 Ionawr 1906 yn Llanilltud-y-faerdre, a chladdwyd ef ym mynwent gyhoeddus Aberdâr.

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau

F. Griffith, *Notable Welsh Musicians* (1896)

*Y Cerddor*, Mawrth 1897

*Y Cerddor*, Chwefror a Mawrth 1906

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20738170

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu